Croeso

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Mae'r arddangosfa hon yn rhan o'r ymgynghoriad statudol ar gynigion ar gyfer Fferm Wynt Mynydd Carn-y-Cefn, sydd wedi'i lleoli i'r gorllewin o Abertyleri o fewn Ardal Gyn-Asesedig a nodwyd ar gyfer darparu ffermydd gwynt.

Mae'r cynigion yn cael eu datblygu gan Pennant Walters, is-gwmni i Walters Group; cwmni lleol wedi'i leoli yn Hirwaun ac yn gweithredu'n genedlaethol. Ers 2003, rydym wedi datblygu, adeiladu a gweithredu chwe fferm wynt a datblygiad solar yn Ne Cymru bellach (ar dir sy'n nodweddiadol iawn o faes glo de Cymru gyda nodweddion mwyngloddio arwyneb a thanddaearol), gan gynhyrchu cyfanswm o 127MW, gan ein gwneud yn ddatblygwr ynni adnewyddadwy cartref mwyaf Cymru.

Cynhaliwyd ymgysylltu cynnar ar Fferm Wynt arfaethedig Mynydd Carn-y-Cefn yr haf diwethaf, ag adborth gan randdeiliaid a thrigolion lleol yn helpu i lywio'r cynlluniau a oedd ar y gweill. Darperir ymateb lefel uchel i faterion allweddol a godwyd fel rhan o'r arddangosfa hon. Mae drafft o'r cais cynllunio llawn, gan gynnwys canlyniadau arolygon ac asesiadau amgylcheddol, ar gael ar wefan y prosiect am ragor o wybodaeth.

Bydd adborth a dderbynnir yn ystod yr ymgynghoriad hwn yn cael ei adolygu a'i ddefnyddio i lywio'r cynigion terfynol, a fydd yn cael eu cyflwyno i Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) yn yr Hydref/Gaeaf.

Y cynigion

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Mae'r cynigion ar gyfer:

- Hyd at wyth tyrbin gwynt gydag uchder llafn uchaf hyd at 180m.
- Adeiladau is-orsaf a thrawsnewidydd.
- Llecyn adeiladu dros dro a swyddfeydd y safle.
- Padiau craeniau, mannau storio a cheblau.
- Traciau mynediad o fynedfa'r safle i'r tyrbinau a'r is-orsaf.

Mae gwaith iteru'r dyluniad wedi'i ddylanwadu gan swm helaeth o waith asesu ac arolygu ynghyd â modelu golygfeydd posibl o dderbynyddion sensitif lleol i leihau effeithiau posibl.



Cynllun fferm wynt arfaethedig

Mae tîm y prosiect yn hyderus y gall y safle gynnwys wyth tyrbin gwynt, a allai gynhyrchu hyd at 34MW o drydan. Mae'r seilwaith di-dyrbin wedi'i drefnu i osgoi'r cyfyngiadau a nodwyd ar y safle lle bo'n bosibl, ac mae llwybrau mynediad wedi'u dylunio i leihau croesfannau dŵr ac osgoi ardaloedd a allai fod yn sensitif.

Mae Mynydd Carn-y-Cefn hefyd yn elwa o fynediad da i'r rhwydwaith priffyrdd ac i'r rhwydwaith dosbarthu trydan. Mae cynnig o gysylltiad â'r grid gan Western Power Distribution (WPD) wedi'i dderbyn. Bydd llinell 33kV rhwng yr is-orsaf ar y safle a'r grid trydan yng Nghrymlyn yn destun cais ar wahân. Bydd angen cydsyniad eilaidd i ddargyfeirio tri hawl tramwy cyhoeddus pan fydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu a phan fydd yn weithredol.

Cyflwr y tir ac effaith weledol

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Cyflwr y tir

Mynegwyd pryder yn ystod yr ymgysylltu cynnar ynghylch sefydlogrwydd tir oherwydd gweithgarwch mwyngloddio blaenorol. Ymgymerwyd ag ymweliadau safle ac astudiaethau desg a nodwyd gweithgarwch mwyngloddio hanesyddol o dan y safle. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud, gan gynnwys cysylltu â'r Awdurdod Glo a gwaith archwilio tir, i ddeall y risgiau ynghylch sefydlogrwydd a sicrhau bod sylfeini tyrbinau a seilwaith arall wedi'u dylunio'n briodol.

Effaith weledol

Mae cynllun yr wyth tyrbin gwynt wedi'i lywio gan amrywiaeth o astudiaethau amgylcheddol yn ogystal ag adborth o'r ymgysylltu cynnar.

Mae lleoliad y tyrbinau i'w gweld ar y bwrdd Cynigion ac mae ffotogyfosodiadau yn dangos sut olwg fyddai ar y Fferm Wynt o fannau gweld o amgylch y safle ar gael ar sgrin yr arddangosfa.

Cysgodion symudol

Mae astudiaethau wedi nodi bod gan hyd at 10 derbynnydd y potensial i brofi rhyw lefel o gysgodion symudol oherwydd y fferm wynt arfaethedig.

Bydd hyn yn cael ei liniaru trwy ddefnyddio modiwl rheoli tyrbinau a fydd yn cael ei raglennu i gau'r tyrbin ar adegau a dyddiadau penodol pan ragwelir cysgodion symudol annerbyniol.

Amgylchedd/bywyd gwyllt

Codwyd yr effaith bosibl ar yr amgylchedd lleol a bywyd gwyllt yn ystod yr ymgysylltu cynnar fel materion allweddol i'w hystyried wrth benderfynu ar leoliad y tyrbinau gwynt.

Adar: mae arolygon adaryddol wedi'u cynnal ers dechrau 2020 i nodi mathau a nifer yr adar sy'n defnyddio'r safle yn ystod misoedd y gaeaf a'r haf yn ogystal â llwybrau hedfan ar draws y safle. Ymgymerwyd â modelu risg o wrthdrawiadau ac mae'r tyrbinau arfaethedig wedi'u lleoli mewn lleoliadau sydd â'r tebygolrwydd lleiaf o brofi gwrthdrawiadau.

Ystlumod: mae arolygon ystlumod wedi nodi o leiaf saith rhywogaeth sy'n defnyddio'r safle. Mae llinellau hedfan allweddol a chlustogfeydd osgoi cynefinoedd wedi'u nodi ac mae mwyafrif y tyrbinau gwynt arfaethedig y tu allan i'r coridorau hyn.

Mawn: ni ddangosodd Map Mawn Unedig Cymru unrhyw ddyddodion mawn ar y safle a chadarnhawyd absenoldeb mawn dwfn gan arolwg mawn a gwblhawyd yn 2021.

Cynefinoedd allweddol: mae ardaloedd o'r safle wedi'u dynodi'n Safle o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur (SINC) a byddai ardaloedd bach o gynefin yn cael eu colli oherwydd seilwaith y prosiect.

Mae Swyddog Bioamrywiaeth Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent wedi cynghori y gellir lliniaru colledion o'r fath trwy fabwysiadu mesurau megis lleihau rhedyn yn flynyddol a ffensio pyllau a ddynodwyd o fewn y SINC i warchod a gwella bioamrywiaeth.

Byddai mesurau o'r fath yn cael eu gweithredu trwy Gynllun Rheoli Cynefin (HMP), i'w gytuno gyda'r awdurdod lleol a CNC.

Pyllau benthyg: mae cynlluniau i ddefnyddio pyllau benthyg ar y safle wedi'u dileu i leihau'r effeithiau posibl ar gynefinoedd presennol. Byddai cerrig ar gyfer sylfeini tyrbinau a ffyrdd mewnol yn dod o ddwy chwarel leol (Chwarel Gryphonn yn Nhrefil, Tredegar a Chwarel yr Hafod yn Abercarn, Trecelyn). Bydd symudiadau traffig yn cynyddu o ganlyniad, fodd bynnag, nid yn ddigon i arwain at effeithiau amgylcheddol 'sylweddol' gan draffig.

Effeithiau lleol

Agosrwydd at ardaloedd preswyl

Pennir pellter derbyniol rhwng tyrbinau gwynt ac eiddo preswyl trwy asesiad o'r effeithiau a allai ddeillio o gyfnodau adeiladu a gweithredu'r fferm wynt arfaethedig. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys y potensial am effeithiau sylweddol gan sŵn, cysgodion symudol ac amwynder gweledol.

Ar sail yr amodau sylfaenol presennol, mae pob un o'r pynciau hyn wedi'u hystyried a'r canlyniadau wedi'u defnyddio i lywio lleoliad y tyrbinau gwynt â'r nod o atal effeithiau sylweddol.

Mae cynllun y safle wedi cael ei ddylanwadu gan agosrwydd tyrbinau at eiddo preswyl, yn ogystal â chyfyngiadau eraill gan gynnwys peirianneg ac ecolegol. Mae effeithiau posibl ar dderbynyddion preswyl wedi'u hystyried yn yr Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol a chânt eu hadrodd yn y Datganiad Amgylcheddol Drafft, sydd ar gael i'w adolygu'n llawn ar wefan y prosiect.

Sŵn

Fel rhan o'r asesiad hwn, gosodwyd offer mesur sŵn mewn pedwar lleoliad o amgylch y safle, a gytunwyd gyda Swyddog Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor ymlaen llaw. Fe wnaeth hyn helpu i ddeall lefel sylfaenol bresennol y sŵn yn ystod gwahanol adegau o'r dydd a'r nos.

Codwyd topograffeg y safle a sut mae sŵn yn teithio fel problem bosibl yn ystod yr ymgysylltu cynnar. Mae hyn wedi'i gynnwys yn yr asesiad ac mae sŵn y dyffryn wedi'i ymgorffori yn y rhagfynegiadau sŵn o dan amodau penodol lle mae adlewyrchiadau'n cael eu hystyried yn nodedig.

Bydd yr asesiad sŵn a wneir yn sicrhau bod y sŵn a gynhyrchir o gynllun y tyrbinau gwynt arfaethedig yn dod o fewn paramedrau a ganiateir/terfynau a ganiateir.

Trafnidiaeth a mynediad

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Trafnidiaeth adeiladu: Yn ystod yr ymgysylltu cynnar, gofynnwyd cwestiynau am y llwybr y byddai'r tyrbinau'n ei gymryd a chapasiti'r rhwydwaith ffyrdd lleol i ymdopi â symudiad Llwythi Anwahanadwy Annormal (AILs), yn arbennig ar ffyrdd culach, mwy gwledig yn agos at fynedfa'r safle.

Mae mater trafnidiaeth a mynediad wedi'i ystyried yn ofalus ac mae llwybr priodol i'r safle ar gyfer cerbydau adeiladu wedi'i nodi – gan gynnwys AILs megis llafnau'r tyrbinau a naseli – sy'n osgoi ffyrdd cul a ffyrdd o flaen eiddo preswyl lle bo modd.

Hawliau Tramwy Cyhoeddus

Bydd angen cydsyniad eilaidd i ddargyfeirio tri hawl tramwy cyhoeddus pan fydd y fferm wynt yn cael ei hadeiladu a phan fydd yn weithredol. (Gweler y map)

Y llwybr hwn yw:

Dociau Abertawe – Baldwins Crescent – A483 – A483/Ffordd Amazon/Cylchfan Ashleigh Terrace – A483- A483/M4 – M4 – A4051 – A4042 – A4042 Ffordd Dyrpeg – A472 – A467- A4046 – safle.

Rhagwelir y bydd angen cais ar wahân gan yr Awdurdod Lleol ar gyfer symud dodrefn priffyrdd dros dro i ganiatáu cludo tyrbinau i'r safle.



Map gwyriadau hawliau tramwy cyhoeddus



Llwybr mynediad

Buddion i'r gymuned

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Mae'r cymunedau y mae ein ffermydd gwynt yn gweithredu ynddynt yn bwysig i ni. Rydym yn gweithredu Cronfa Buddion Cymunedol ar gyfer pob un o'n prosiectau fferm wynt, sy'n buddsoddi arian yn y cymunedau lleol. Hyd yn hyn mae wedi dosbarthu tua £4 miliwn i brosiectau cymwys.

Fel rhan o'r ymgysylltu cynnar, fe wnaethom wahodd adborth am berchnogaeth leol a'r Gronfa Buddion Cymunedol – sut y gellid ei gweinyddu'n fwyaf effeithiol, y mathau o brosiectau y gallai eu cefnogi a'i chyrhaeddiad daearyddol. Fe wnaethom hefyd gynnal gweithdy gyda rhanddeiliaid lleol i gael gwell dealltwriaeth o sut y gallai'r gronfa gyfrannu'n gadarnhaol at yr ardal leol.

Mae adborth hyd yn hyn yn cynnwys:

- Potensial i'r Gronfa gefnogi gweinyddwr/arweinydd prosiect i gefnogi grwpiau sydd â diddordeb mewn sicrhau grant, yn arbennig ar brosiectau mwy.
- Potensial i hyrwyddo prosiectau arloesol, sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n rhai cynaliadwy a fydd â manteision pellgyrhaeddol.
- Y gronfa i fod ar gael i brosiectau yn y cymunedau sy'n cynnal ac sy'n union o amgylch y Fferm Wynt. Potensial i gynyddu'r ardal ddaearyddol oherwydd natur linellol y cymoedd.

Gan mai cwmni Cymreig yw Pennant Walters, bydd y Fferm Wynt mewn perchnogaeth leol. Fodd bynnag rydym hefyd yn ystyried cyfleoedd ar gyfer elfen o gydberchnogaeth gyda'r gymuned leol.

Clwb Bowls Cwm Ogwr yn targedu aelodaeth ieuenctid gyda £8,000 oddi wrth Pennant Walters

Fe roddodd Pennant Walters £20,000 i Ffrindiau Parc Aberdâr i wneud sblash!

Rhodd Pennant Walters o £13,000 i Glwb Pêl-droed Rhondda ar gyfer eisteddle newydd 60 sedd

Dweud eich dweud

Mynydd Carn-y-Cefn www.carn-y-cefn.co.uk PENNANT WALTERS

Er bod y cais cynllunio yn Ddatblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol (DAC) ac y bydd yn cael ei benderfynu yn y pen draw gan Weinidogion Cymru, mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent a'r cymunedau lleol yn ymgyngoreion allweddol. Gallwch ddweud eich dweud ar y cynigion ar gyfer Fferm Wynt Mynydd Carn-y-Cefn drwy:

Ffonio: 01495 832476
E-bostio: consultation@carn-y-cefn.co.uk
Ysgrifennu at: Freepost GRASSHOPPER CONSULT (nid oes angen stamp na chyfeiriad ychwanegol)

Darparwch eich sylwadau **erbyn 8 Gorffennaf 2022.**

Bydd adborth a dderbynnir yn cael ei ddadansoddi ac ymatebir iddo yn yr Adroddiad Ymgynghori Cyn Ymgeisio, a fydd yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r cais DAC.

* Bydd y manylion cyswllt hyn yn eich rhoi mewn cysylltiad â Grasshopper Communications, sy'n rheoli'r ymgynghoriad.

Amserlen ddangosol

Haf 2022 :
Ymgynghoriad statudol ynghylch cynllun manwl y fferm wynt arfaethedig

Hydref 2022:
Adolygu adborth o'r ymgynghoriad a chwblhau'r cynigion/cais am DAC

Hydref/Gaeaf 2022:
Cyflwyno'r cais am DAC i PCAC

Gwanwyn/Haf 2023:
PCAC yn archwilio'r cais a chyflwyno argymhellion i Lywodraeth Cymru

Hydref/Gaeaf 2023:
Gweinidogion Cymru'n penderfynu ar y cais

Yn amodol ar ganiatâd cynllunio, byddai'n cymryd tua dwy flynedd i adeiladu Fferm Wynt Mynydd Carn-y-Cefn, felly byddai'n weithredol ac yn cynhyrchu trydan erbyn Gaeaf 2025.